**Y Pwyllgor Diwylliant CC-7-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 17 Ebrill 2002 |
| **Amser:** | 9.00am-12.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Martin Evans (Cyfarwyddwr, Gr•p Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd)

Margaret Evans (Pennaeth, Cyfadran y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Loteri)

Russell Thomas (Pennaeth, Cyfadran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)

Gwyn Griffiths (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol)

Peter Jones (Cynghorydd i Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor)

Prys Davies (Cyfadran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)

Lyn Owen (Cyfadran Cynllunio)

**Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor)

**Datganiadau o fuddiant:**

- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
- Dafydd Wigley - ei wraig yn aelod amlwg o gymuned y celfyddydau yng Nghymru; roedd wedi derbyn grant gan Gyngor Llyfrau Cymru ac roedd ganddo gysylltiadau ffurfiol â Hijinx Theatre.

- Rosemary Butler – Cadeirydd Prosiect Amgueddfa Genedlaethol Diwydiant a'r Môr.

**Sylwadau Rhagarweiniol**

1. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau am y cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer prynhawn Iau, 25 Ebrill.
2. Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai cynrychiolwyr o'r •yl Ryngwladol Theatr Gerddorol yng Nghaerdydd yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor ar 1 Mai.

**<u>Eitem 1: Adolygiad o'r Gymraeg – CC-7-02 (p'au 1-3)</u>**

1. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor o rai o'r casgliadau yr oeddent eisoes wedi eu cyrraedd, yn cynnwys:

- diffiniad o ddwyieithrwydd

- y dylid cael strategaeth genedlaethol ond â mesurau arbennig ar gyfer y bröydd Cymraeg
- y dylai'r strategaeth anelu at greu cymunedau cynaliadwy yn yr ardaloedd y mae pobl yn eu gadael, a gwneud y Gymraeg yn iaith gymuned fyw, gan gynyddu'r niferoedd sy'n ei deall, ei siarad ac yn dewis ei defnyddio
- bod mudiad poblogaeth yn effeithio ar ddyfodol yr iaith
- y dylai cynllunio ieithyddol fod yn flaenoriaeth, a throsglwyddo'r iaith o fewn y teulu a defnyddio'r iaith mewn cymunedau yn flaenoriaeth o ran adnoddau
- mynd i'r afael â'r rhesymau am allfudo – economaidd, tai ac ansawdd bywyd a'r gwasanaethau sydd ar gael.

1. Canolbwyntiodd trafodaeth y Pwyllgor ar bapur 2a, a baratowyd gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, a ystyriai a oedd lle dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i ddod â rhagor o gyrff o fewn cwmpas y Ddeddf honno.
2. Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd Gwyn Griffiths fod lle i ymestyn y defnydd o Ddeddf 1993 mewn perthynas â chyrff a oedd yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus dan y ddeddfwriaeth gyfredol, gan ddefnyddio pwerau'r Cynulliad dan Adran 6. Gallai'r rhai gynnwys cwmnïau'r cyfleustodau, yr oedd rhai ohonynt eisoes wedi paratoi cynlluniau iaith gwirfoddol.

4. Gorffennodd Mr Griffiths trwy ddweud y byddai'n rhaid ystyried pob achos yn unigol gan ystyried a oedd corff arbennig yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru neu'n arfer swyddogaethau statudol mewn perthynas â darparu gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus i'r cyhoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, rhybuddiodd y Pwyllgor pe deuid â'r cyfleustodau a breifateiddiwyd yn unig o fewn telerau'r Ddeddf y gallent fod dan anfantais gystadleuol o gymharu â chystadleuwyr, ac y byddai hynny'n gwneud heriau cyfreithiol yn fwy tebygol.
5. Nodwyd y sylwadau canlynol yn y drafodaeth:

- Atgoffodd y Gweinidog yr Aelodau fod y sefyllfa mewn perthynas â chyfleustodau yn fwy cymhleth nag yr oedd yn 1993 gan fod llawer wedi eu preifateiddio ers hynny.
- Dywedodd un aelod ei fod yn cael anhawster arbennig â SWALEC a oedd yn cyhoeddi biliau trydan yn Saesneg yn unig. Teimlai'r Gweinidog y dylai gyfeirio hyn at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Teimlai rhai aelodau y dylai'r Pwyllgor, os nad oedd Deddf 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfleustodau baratoi cynlluniau iaith, ystyried argymell newid yn y ddeddfwriaeth.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i'r mater hwn a gofynnodd a allai hi baratoi papur i gynnwys y prosesau perthnasol a rhestr o gyfleustodau preifat a allai ddod o fewn deddfwriaeth 1993, erbyn cyfarfod 15 Mai. Bu peth trafod ar Gynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad ei hun. Mynegodd rhai aelodau bryder bod tair blynedd wedi mynd heibio ers sefydlu'r Cynulliad ac nad oedd cynllun o'r fath wedi ei gwblhau eto. Atebodd y Gweinidog fod Cynllun y Swyddfa Gymreig, a etifeddwyd gan y Cynulliad, yn

dal i fodoli, ond bod ymgynghori ar y gweill ar gynllun wedi ei ddiweddaru ac y deuai hwnnw i rym yn yr hydref.

4. Bu trafod hefyd ar y Datganiad Iaith Gymraeg a baratowyd gan Swyddfa'r Llywydd. Dywedodd y Cadeirydd fod cynrychiolwyr o Swyddfa'r Llywydd i ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 1 Mai i drafod materion yn ymwneud â chyfieithu, ac y gellid codi'r mater hwn bryd hynny â swyddogion.

**Statws yr iaith**

5. Dyfynnodd y Cadeirydd ateb Seneddol a roddwyd yn 1993 gan y Prif Weinidog ar y pryd i Dafydd Wigley ynghylch statws swyddogol y Gymraeg. Roedd yr ateb yn datgan bod y Llywodraeth yn credu bod y Gymraeg eisoes yn mwynhau statws swyddogol yng Nghymru ac na fyddai datganiad cyffredinol i'r perwyl hwnnw yn cael unrhyw effaith ymarferol ac y byddai'n debygol o gynyddu'r ansicrwydd cyfreithiol.
6. Teimlai rhai aelodau bod peth ansicrwydd o hyd ynghylch statws swyddogol yr iaith a mynegwyd pryder nad oedd egwyddor dwyieithrwydd wedi ei hymgorffori yn y gyfraith. Teimlent fod lle i newid Deddf 1993 i egluro ei statws cyfreithiol a swyddogol. Eglurodd Gwyn Griffiths mai'r traddodiad ym Mhrydain oedd deddfu i wneud pethau yn hytrach nag i ddatgan pethau, yn wahanol i ddeddfwriaeth ar gyfandir Ewrop.
7. Teimlai Dafydd Wigley y gallai unrhyw deddfwriaeth a newidid hefyd gynnwys:

- Esboniad o statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg
- Datganiad mai'r Gymraeg yw iaith genedlaethol Cymru
- Datganiad o hawliau unigolion i dderbyn gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cydnabyddiaeth o hawliau unigolion i siarad Cymraeg yn y gweithle
- Cydnabyddiaeth o hawliau unigolion i gael eu profi gan reithgorau dwyieithog
- Datganiad ar oblygiadau TGCh i'r Gymraeg

1.11 Sicrhaodd y Cadeirydd yr aelodau y byddent yn derbyn copi o'r rhestr hon ac y byddent yn trafod ei goblygiadau mewn cyfarfod arall. Gofynnodd aelodau hefyd am i nodyn ar y gymhariaeth rhwng deddfwriaeth Brydeinig ac Ewropeaidd gael ei baratoi ar gyfer cyfarfod 15 Mai.

**Technoleg Newydd - Papur CC-7-02 (p.3)**

12. Cyflwynwyd y papur hwn gan Euryn Ogwen Williams. Dywedodd mai ychydig o dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor ar bwysigrwydd technoleg newydd ond teimlai ei fod yn fater y dylai'r Pwyllgor ei ystyried. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi

pwysigrwydd technoleg newydd i'r iaith a sicrhau bod y strategaeth TGCh a ddatblygir gan y Cynulliad yn derbyn bod yn rhaid i'r Gymraeg fod yn bresennol ym mhob agwedd ar y strategaeth. Cytunodd y Pwyllgor â'r agwedd hon.

13. Bu peth trafod ar y derminoleg a ddefnyddiwyd yn y papur ac ynghylch corpws y Gymraeg. Nodwyd bod tua naw miliwn o eiriau yn y Gymraeg, a bod hyn yn cymharu'n ffafriol â ieithoedd lleiafrifol tebyg.

**Polisïau Tai a Chynllunio – Papur CC-7-02(p.2)**

14. Rhoddodd Martin Evans, Cyfarwyddwr y Gyfadran Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd a Lyn Owen o'r Gyfadran Gynllunio esboniad byr o gefndir cyhoeddi "Polisi Cynllunio Cymru" yn ddiweddar a'i oblygiadau o ran cynllunio a'r Gymraeg. Dywedwyd bod y ddogfen yn gam ymlaen o'r "Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 – Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio (2000)" a roddai gyngor technegol yn hytrach na phennu polisi. Roedd "Polisi Cynllunio Cymru" yn datgan bod rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru roi ystyriaeth i'r Gymraeg ac i'r bygythiad i gymunedau a oedd yn rhai Cymraeg yn bennaf wrth ystyried ceisiadau a datblygiadau cynllunio. Roedd y Gweinidog dros Drafnidiaeth, yr Amgylchedd a Chynllunio eisoes wedi ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd y polisi y flwyddyn nesaf.
15. Nodwyd y sylwadau canlynol yn y drafodaeth:

- Croesawodd sawl aelod y ddogfen fel cam cadarnhaol ymlaen i warchod y bröydd Cymraeg ac fel datganiad clir o'r egwyddor bod y Gymraeg yn ffactor wrth ystyried canlyniad ceisiadau cynllunio.
- Bu peth trafod ar y cynnig i wneud caniatâd cynllunio yn ofynnol cyn newid statws annedd parhaol yn d• haf. Cefnogai llawer o aelodau hawl awdurdodau lleol i gael y pwerau hyn. Dywedodd swyddogion nad oedd cyfeirio at hyn yn y ddogfen polisi cynllunio, ond bod ymchwil i hyn yn parhau ac y byddai papur ymgynghori ar y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn cael ei gyhoeddi cyn hir. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid bwydo'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor i'r broses ymgynghori.
- Cytunai'r Pwyllgor y dylai ei adroddiad fynegi egwyddorion sylfaenol ar faterion tai a chynllunio ond gadael i eraill ymdrin â'r argymhellion manwl.
- Bu peth trafod ar y Cynllun Homebuy ar gyfer ardaloedd gwledig. Rhoddodd sawl aelod sylw ar bwysigrwydd y Cynllun o safbwynt galluogi pobl leol i brynu eiddo yn eu cymunedau. Nododd eraill fod angen rhagor o gyllid ar y Cynllun a bod yr arian yn cael ei wario mewn pentrefi diwydiannol mewn rhannau o'r wlad, yn hytrach nag yn yr ardaloedd gwirioneddol wledig.
- Cytunai'r Pwyllgor y dylai unrhyw argymhellion a wneid ganolbwyntio ar yr angen i ddatblygu cymunedau cynaliadwy ac y dylid osgoi unrhyw beth a filwriai yn erbyn hawliau dynol unigolyn.

**<u>Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog – CC-7-02(p.4)</u>**

**Ymweliad â Gwlad y Basg**

1. Rhoddodd y Gweinidog adroddiad i'r Pwyllgor am ei hymweliad diweddar â Gwlad y Basg. Dywedodd i'w hymweliad roi golwg werthfawr iddi ar y gwaith a wnaed yno dros yr ugain mlynedd diwethaf i gynorthwyo'r iaith frodorol.
2. Mewn llawer ffordd roedd Gwlad y Basg yn cynnig cymhariaeth ieithyddol ddelfrydol. Roedd y boblogaeth yn debyg i un Cymru, y ganran o siaradwyr iaith leiafrifol yn debyg ac ychydig o debygrwydd oedd rhwng y Gymraeg na'r Fasgeg a'r iaith fwyafrifol. Mewn blynyddoedd diweddar roedd Gwlad y Basg wedi gwrthdroi dirywiad yr iaith frodorol.
3. Y prif negeseuon i ddeillio o'r ymweliad oedd nad oedd gwneud dim i atal dirywiad yr iaith yn ddewis; y gallai cymorth sefydliadol fod yn effeithiol ac mai addysg oedd y prif gyfrwng i adfywio iaith.
4. Roedd lle i ddatblygu ymhellach yng Ngwlad y Basg. Ychydig o ddefnydd oedd o'r Fasgeg yn y gwasanaeth sifil ac ychydig o addysg alwedigaethol oedd trwy gyfrwng y Fasgeg, ond roedd ei Chanolfannau Addysg Oedolion wedi hen ymsefydlu a gallent fod yn batrwm i Gymru. Roedd cryn bwyslais hefyd ar hysbysebu a hyrwyddo'r Fasgeg.
5. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog a allai roi nodyn i'r Pwyllgor ar ei hymweliad mewn pryd ar gyfer trafodaeth lawnach gan y Pwyllgor ar 1 Mai.
6. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau hefyd bod y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn derbyn tystiolaeth gan swyddogion o Wlad y Basg ar 8 Mai. Gofynnodd y Pwyllgor am gyfle i gwrdd â swyddogion o Wlad y Basg yn ystod eu hymweliad.

**Cyhoeddi**

7. Cyhoeddodd y Gweinidog grant unigol o £250 mil i Gyngor Llyfrau Cymru am y flwyddyn ariannol hon i helpu i weithredu rhai o brif argymhellion y Gr•p Gorchwyl a Gorffen ar gyhoeddi. Byddai'r arian yn help i'r Cyngor Llyfrau symbylu cyhoeddi llyfrau trwy gyfrwng y Gymraeg a llyfrau o ddiddordeb Cymreig yn Saesneg. Diolchodd i Delyth Evans ac i aelodau eraill o'r Gr•p a oedd wedi cyfrannu at ddatblygu adroddiad a gâi ei gefnogi gan y sector cyhoeddi yn gyffredinol. Byddai'n anfon llythyr at yr aelodau yn fuan iawn yn cynnwys copi o'r adroddiad terfynol.
8. Ychwanegodd y Weinidog fod y Gr•p yn cynrychioli pob agwedd ar y diwydiant cyhoeddi a bod ei argymhellion yn unfrydol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys symleiddio cyllido'r Cyngor Llyfrau. Yn y dyfodol, byddai'r Cyngor Llyfrau yn cael ei gyllido'n uniongyrchol gan y Cynulliad ac yn cael ei archwilio gan y Pwyllgor hwn. Roedd mesurau hefyd i gryfhau'r diwydiant cyhoeddi Cymraeg, i wella marchnata ac i gynyddu'r amrywiaeth o lyfrau a oedd ar gael yn y Gymraeg.
9. Mynegodd rhai aelodau bryder bod swm unigol wedi ei ddyrannu i Gyngor Llyfrau

Cymru cyn i argymhellion y Pwyllgor ar y Gymraeg gael eu cwblhau. Teimlai rhai hefyd y dylai'r argymhellion fod wedi dod gerbron y Pwyllgor cyn i'r grant ychwanegol gael ei ddyrannu. Atgoffodd y Gweinidog yr aelodau mai gweithgor gweinidogol oedd hwn a bod y Pwyllgor eisoes wedi penderfynu y dylid symleiddio cyllido'r Cyngor Llyfrau. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai amser yn cael ei neilltuo yn yr amserlen os teimlent fod angen trafodaeth lawnach ar argymhellion y Gr•p Gorchwyl a Gorffen.

10. Materion eraill a godwyd yn y drafodaeth oedd:

- Wrth ateb cwestiwn am yr angen i gynyddu cyfran Cymru o arian Loteri, dywedodd y Gweinidog fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ddiweddar wedi cyhoeddi adolygiad o'r loteri ac y byddai'r adolygiad yn ymdrin â mater cyfran Cymru.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn parhau i bwyso am leihau'r TAW ar docynnau theatr a chwaraeon.
- Mynegwyd pryder ynghylch newidiadau posibl a fyddai'n golygu na fyddai arian loteri bellach yn cael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau celfyddydau. Mynegwyd pryder yn arbennig ynghylch dyfodol Cynllun Dociau Victoria. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ymchwilio i'r mater ac yn ysgrifennu at yr Aelod dan sylw.

**<u>Eitem 3: Datblygiad Deddf y Swyddfa Gyfathrebu 2002 a'r Mesur Cyfathrebu – Papur CC-7-02(p.5)</u>**

1. Cyflwynwyd y papur hwn gan swyddogion a ofynnodd i'r Pwyllgor nodi bod y Deddf y Swyddfa Gyfathrebu bellach ar y llyfr statud. Roedd y Ddeddf hon yn galluogi OFCOM i recriwtio staff perthnasol. Byddai'r Mesur yn cynnwys rhai darpariaethau pwysig i'r Pwyllgor eu hystyried.
2. Ar ôl trafodaeth fer, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddent yn ymdrin â thrafod y Mesur yn yr un ffordd ag y gwnaed yn achos y Papur Gwyn. Byddent yn rhoi ystyriaeth i farn darlledwyr cyn llunio argymhellion a fyddai wedyn yn cael eu hystyried gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad mewn sesiwn llawn.

**<u>Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth – Papur CC-6-02(min)</u>**

1. Derbyniwyd y rhain heb newid.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ebrill 2002**